Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (NAAONB)
Disgrifiad o'r Swydd

TEITL Y SWYDD	**Rheolwr Datblygu Cymru**
CYFLOG	**£42,000 pro rata**
ORIAU	**30 awr yr wythnos – cytundeb cyfnod penodol o ddwy flynedd**
LLEOLIAD	**Gweithio gartref**
YN GYFRIFOL I'R	**Prif Weithredwr**
YN GYFRIFOL AM	**AMHERTHNASOL**

CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

- Prif Weithredwr NAAONB
- Ymddiriedolwyr NAAONB
- Tîm Staff NAAONB
- Staff Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau)
- Staff Parciau Cenedlaethol
- Swyddogion Llywodraeth Cymru
- Staff Cyfoeth Naturiol Cymru

DIBEN Y SWYDD:

a) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bartneriaethau AHNE Cymru gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen Bolisi *Gwerthfawr a Chydnerth* Llywodraeth Cymru
b) Bwrw ymlaen â mesurau i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y AHNEau a'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
c) Helpu i ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer gweithrediadau'r NAAONB yng Nghymru
d) Cefnogi Prif Weithredwr, Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr a Staff NAAONB yng Nghymru

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd a chefnogi cyd-weithio ar draws y tirweddau penodedig yng Nghymru.
- Datblygu cyfleoedd i bartneriaethau AHNE i gefnogi'r gwaith darparu a thargedu rheoli tir yn y dyfodol ar ôl Brexit.
- Gwneud y gorau o wytnwch a chysylltedd tirweddau mewn AHNEau er mwyn mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth
- Arwain ar gydlynu mewnbwn i, a chynhyrchu, ymatebion i ymgynghoriadau cenedlaethol, gan ddefnyddio cronfeydd gwybodaeth amrywiol a chefnogi datblygiad partneriaethau AHNEau Cymru fel llais unedig
- Datblygu cynigion am gymorth gan gyllidwyr allanol i wella gwydnwch y NAAONB a phartneriaethau AHNE yng Nghymru.
- Helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y capasiti a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni amcanion

strategol cenedlaethol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu hyfforddiant, rheoli data a hwyluso grŵp.
- Gweithio gyda'r tîm NAAONB ehangach a staff AHNEau yng Nghymru i ddatblygu a rheoli sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi eiriolaeth effeithiol sy'n dangos effeithiolrwydd gweithgareddau i gynulleidfaoedd cenedlaethol.

Manyleb Person

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig iawn i ymuno â'n tîm a'n helpu i fynd â phartneriaethau AHNE yng Nghymru drwy gyfnod cyffrous o dwf trawsnewidiol. Mae rhaid i chi ddangos profiad rheoli sylweddol a bod yn barod i gymhwyso eich sgiliau mewn cyd-destun unigryw a heriol. Byddwch yn hynod frwdfrydig ac yn gallu gweithio'n annibynnol. Bydd gennych sgiliau rhyngbersonol a dylanwadu rhagorol a byddwch yn gallu arwain ac ysbrydoli staff partneriaeth AHNE yn ogystal â rhanddeiliaid cydweithredol allanol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Mae rhaid i'r ymgeiswyr fedru dangos dealltwriaeth o amrywiaeth ieithyddol Cymru a phwysigrwydd dwyieithrwydd. Bydd deiliad y swydd angen dealltwriaeth dda o'r cyd-destun gwleidyddol a deddfwriaethol yng Nghymru.

Hanfodol

- O leiaf 5 mlynedd o brofiad o reoli/polisi tirwedd a phrofiad amlwg o ddylanwadu ar eraill.
- Profiad o weithio gyda llywodraethau, Aelodau Cynulliad a gweision sifil ar y lefel uchaf.
- Dealltwriaeth o ddiwylliant a gwleidyddiaeth Cymru
- Profiad o weithio gyda rhoddwyr a chyrff rhoi grantiau
- Profiad o weithio gyda'r sector preifat
- Gallu amlwg i reoli a meithrin cysylltiadau gyda rhanddeiliaid
- Gallu rheoli llwyth gwaith cymhleth ac amrywiol a gweithio o dan bwysau
- Sgiliau cyfathrebu cryf

Dymunol

- Profiad o weithio yn y sector gwirfoddol
- Y gallu i siarad Cymraeg
- Profiad o brosiectau newid ymddygiad
- Profiad o hyfforddi eraill
- Trwydded yrru lawn a glân